

Cymhorthydd Dysgu – Lefel 1 x 3 swydd

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00171W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 2 (£12,716 – £13,007)
Oriau: 32.5 awr yr wythnos (Tymor Ysgol yn unig + 5 HMS)
Math o gytundeb: Swydd Parhaol i ddechrau cyn gynted â phosib -
Swydd Allanol

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y Swyddi uchod yn yr ysgol hapus a llwyddiannus hon.

Rydym yn chwilio am Gymorthyddion Dysgu brwdfrydig sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff dysgu yn y dosbarth, gydag athro fel arfer, i helpu disgyblion i ddysgu a rhoi cymorth yn gyffredinol i athrawon gyda rheoli disgyblion a'r dosbarth.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Llythrennedd a Rhifedd ardderchog a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu a'r ysgol ar 01745 582611.

Dyddiad Cau: Dydd Mercher 26 Medi, 2018

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

This Advert is for Teaching Assistants at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.